

# **Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

Deintyddfa Waterfront

Dyddiad yr arolygiad: 11 Medi  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 12 Rhagfyr  
2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Waterfront yng Nghanolfan Feddygol Glan-y-dŵr, Heol y Llongau, y Barri, CF63 4AR, ar 11 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Mae rhagor o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod Deintyddfa Waterfront yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol i sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol. .

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd yr offer a'r ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Roedd gan y staff fynediad da at hyfforddiant a chymorth gan dîm ehangach y practis

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhagor o wiriadau rheolaidd a chofnodi cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn argyfwng yn unol â'r canllawiau cenedlaethol
- Dylai'r practis wneud trefniadau i gynnal adolygiad clinigol gan gymheiriaid
- Dylid cyflwyno proses er mwyn olrhain atgyfeiriadau cleifion i wasanaethau allanol

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Deintyddfa Waterfront yn bractis deintyddol ar gyfer cleifion preifat yn unig..

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, rheolwr y practis, nyrs ddeintyddol a hylenydd (sy'n gweithio rhan amser).

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd uchel a chadarnhaol ar gyfer ei gleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan holl dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 16 holiadur. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r gwasanaeth yn rhagorol ac yn broffesiynol, gyda staff cynorthwyol a pharcio hawdd"*

*Mewn ymateb i'r cwestiwn "Sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu?", dywedodd tri chlaf "Ni allai", "Na, mae'n bractis da" a "Darparu gwasanaethau y GIG"*

## Cadw'n iach

Canfuom fod gan y practis amrediad o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Diben y rhain oedd helpu i hysbysu cleifion am yr angen i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion "dim ysmegu" wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis, a oedd yn cadarnhau'r pwyslais a roddir ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

## Gofal ag urddas



Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm cyfeillgar, a gwelsom ryngweithiadau cwrtais a moesgar gyda'r cleifion. Yn ddieithriad, cytunodd yr holl gleifion eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y practis ei fod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion pe baent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol, i ffwrdd o'r cleifion eraill.

### **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaeth yn cael ei harddangos yn glir ar hysbysfwrdd yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y gost ar gyfer eu triniaeth yn cael ei gwneud yn glir iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn y driniaeth, a chytunodd y mwyafrif llethol ohonynt eu bod yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi llwyddo i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Roedd gan y practis nifer o staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg; er hynny, dywedodd y cleifion hynny a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg wrthym na allent siarad Cymraeg pan oeddent eisiau gwneud hyn. Efallai y byddai'r practis am ystyried sut y gall amlygu'r gwasanaeth hwn i'w gleifion.

### **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad a gwelsom bolisi practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ym man aros y cleifion, yn y daflen gwybodaeth i gleifion, ac ar neges peiriant ateb y ffôn. Dywedodd pedwar o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod neu eu bod yn ansicr am sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion ac, er inni ganfod bod tystiolaeth o gynllunio ar gyfer triniaethau yn cael ei chofnodi, nid oedd y dewisiadau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi'n gyson yn y cofnodion. Tynnwyd sylw y deintydd ar ddiwrnod yr arolygiad at hyn i sicrhau bod rhagor o fanylion yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

### **Hawliau pobl**

Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr cyntaf canolfan feddygol a adeiladwyd yn bwrpasol. Defnyddiwyd grisiau neu lifft i gael mynediad at y practis, a oedd yn golygu bod cleifion ag anawsterau symudedd, neu'r rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn, yn gallu cael mynediad at y practis. Roedd gan y practis ddwy ystafell driniaeth a oedd yn cael eu defnyddio, ac roedd y ddau ohonynt yn hawdd cael mynediad atynt. Roedd toiled a oedd yn hygyrch i gadeiriau olwyn ar gael i'w ddefnyddio gan gleifion hefyd.

### **Gwrando a dysgu o adborth**

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ers iddo agor yn 2016, ond disgrifiodd y staff broses briodol ar gyfer cofnodi, monitro ac ymdrin â chwynion pe baent yn derbyn cwyn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod i bwy y dylent wneud cwyn am y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn y practis.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy fliwch sylwadau yn nerbynfa'r practis. Roedd gan y practis system awtomatig ar waith hefyd ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn dilyn eu

hapwyntiadau. Roedd e-bost awtomatig yn cael ei anfon at gleifion yn dilyn apwyntiad er mwyn casglu eu safbwyntiau, ac roeddem yn gallu gweld nifer o atebion, a oedd yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Roedd angen cynnal rhagor o wiriadau rheolaidd ar gyffuriau ac offer brys er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau cenedlaethol.

Argymhellwyd proses ar gyfer adolygiad clinigol gan gymheiriaid.

Argymhellwyd system ar gyfer olrhain atgyfeiriadau cleifion.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y tu allan a'r tu mewn, ac roedd y ddwy ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom nad oedd profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf gan fod yr holl offer trydanol wedi cael eu gosod yn newydd yn 2016. Dywedodd y practis wrthym fod ganddo gynllun ar waith i sicrhau ei fod yn cynnal profion dyfeisiau cludadwy ar gyfarpar trydanol yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.<sup>1</sup>

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda chwmni preifat.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd wedi'i chyfarparu'n dda ac a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).<sup>2</sup>

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf<sup>3</sup> a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn

---

<sup>1</sup> <http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm>

<sup>2</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis hefyd gofnodi canlyniad y profion pwysedd a gwblhawyd ar y peiriant awtoclaf yn y llyfr cofnodion. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis lawrlwytho'r wybodaeth a gynhyrchir gan y peiriant awtoclaf o ran pob cylchred a brosesir yn rheolaidd, i sicrhau bod paramedrau priodol yn cael eu bodloni ac i'w chadw at ddibenion gwybodaeth, a chytunodd y practis i wneud hyn.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croesheintio. Gwnaethom argymhell y gellid gwella'r gwaith o fagio a labelu rhai offerynnau endodontig cyn iddynt gael eu sterileiddio, a gwnaeth y practis gytuno i wneud y newidiadau angenrheidiol. Roedd y dyddiadau erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbroseu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Gwelsom, lle roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi gan y practis, ei fod wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwmp). Roedd y practis yn rhannu diffibrilwr allanol awtomatig gyda'r practis cyffredinol a oedd wedi'i leoli yn yr un adeilad. Er bod y practis cyffredinol yn cynnal ei wiriadau ei hun ar y diffibrilwr allanol awtomatig, nid oedd y practis deintyddol yn gwneud felly. Gwnaethom argymhell, er mwyn sicrhau bod y diffibrilwr allanol awtomatig yn parhau i fod yn ddiogel i'w

---

<sup>3</sup> Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy ofodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

ddefnyddio, y dylai'r practis gynnal ei wiriadau ei hun ar y diffribrilwr, yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Dadebru (DU).<sup>4</sup> Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod gweddill y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys wedi cael eu gwirio'n rheolaidd gan y practis, a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben. Gwnaethom ganfod, fodd bynnag, fod rhai o gynhwysion y blwch cymorth cyntaf wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddisodli'r cynhwysion sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben, a chynnwys y blwch cymorth cyntaf fel rhan o'i wiriadau rheolaidd. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roeddem yn gallu gweld cofnodion a oedd yn dangos bod mwyafrif yr aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd un dystysgrif wedi dod i ben yn ddiweddar, ond roedd hyfforddiant wedi cael ei drefnu o fewn mis y dyddiad terfyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y diffribrilwr allanol awtomatig, yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.

Rhaid i'r practis ddisodli cynhwysion y blwch cymorth cyntaf sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben a chynnal gwiriadau rheolaidd ar ei gynhwysion.

#### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrif hyfforddiant ar gyfer un aelod o staff gan fod ei hyfforddiant wedi cael ei gwblhau ar-lein. Atgoffwyd y practis fod angen i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar

---

<sup>4</sup> Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

gael i'w harchwilio gan AGIC. Cytunodd y practis i gael copïau o'r tystysgrifau hyfforddiant perthnasol a'u cadw.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith gan y practis a oedd yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol y dylid cysylltu â hwy, pe bai unrhyw bryderon.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, a nodi eu bod yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal at safon uchel. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Cawsom ein hysbysu gan berchennog y practis fod map arolwg y safle, sy'n nodi'r ardaloedd a reolir ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn cael ei storio oddi ar y safle. Gwnaethom argymhell er budd cyfanrwydd y dylid lleoli'r dogfennau hyn o fewn y ffeil diogelu rhag ymbelydredd. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddarau eu hyfforddiant ymbelydredd i'oneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau o'r ystafelloedd triniaeth a chael



adborth gan gleifion i helpu i nodi meysydd i'w gwella, a gwiriadau o'r offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Nid oedd gan y practis broses ar waith ar gyfer adolygu gan gymheiriaid.<sup>5</sup> Byddai proses o'r fath â'r potensial i gefnogi staff yn y gwaith o wella ymarfer. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi meysydd i'w gwella o ran arfer. Cytunodd y practis i wneud hyn.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cadw'n electronig a chanfuom fod proses briodol ar waith i sicrhau bod diogelwch y wybodaeth yn cael ei gynnal.

Nid oedd gan y practis broses ar waith ar gyfer olrhain atgyfeiriadau cleifion at arbenigwyr eraill. Gwnaeth y practis gydnabod hyn a chytuno i roi proses briodol ar waith.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylai'r practis sicrhau bod ganddo broses briodol i olrhain atgyfeiriadau cleifion.

### **Cadw cofnodion**

---

<sup>5</sup> Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o'r "safonau aur" ym maes gwyddonol, sef proses sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd ("cymheiriaid") werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod eu harfer yn drylwyr ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda'r nod o ddarparu'r gofal a thriniaethau gorau posibl.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl gan fwyaf ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Gwnaethom drafod lle y byddai'n fuddiol cofnodi manylion ychwanegol o fewn cofnodion cleifion. Cytunodd y practis i ystyried y canllawiau diweddaraf o ran cadw cofnodion i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol.

Yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros gynnal sganiau pelydr-X a'r hyn a ganfuwyd gan y deintyddion wedi cael eu cofnodi.

Serch hynny, canfuwyd gennym fod rhai cleifion nad oeddent wedi cael sganiau pelydr-X a gymerwyd yn unol â chanllawiau proffesiynol. Gwnaethom drafod hyn â'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad ac argymhell y dylai'r cyfiawnhad dros beidio â chymryd sganiau pelydr-X gael ei gofnodi'n ffurfiol o fewn cofnodion cleifion. Cytunodd y practis i wneud hyn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Roedd y practis yn cael ei reoli ac yn eiddo i un deintydd, gyda chymorth gan reolwr y practis a tîm staff bach a chyfeillgar. Gwelsom fod arlwy o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae Deintyddfa Waterfront yn eiddo i'r prif ddeintydd ac yn cael ei chefnogi gan reolwr practis, nyrs ddeintyddol a hylenydd rhan amser. Mae'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis, a chanfuom fod y tîm yn drefnus ac yn rhagweithiol o ran ei ddull o reoli'r practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth tîm y practis ddangos parodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain ar unwaith.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion manwl yn cael eu cadw.

Gwelsom fod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Er bod rhai o'r polisiâu yn cynnwys dyddiadau, gwnaethom argymhell i berchennog y practis efallai y byddai am ystyried cynnwys y dyddiad pan grëwyd y polisi a rhif y fersiwn i sicrhau bod y staff yn gwybod bod ganddynt fynediad at y polisi diweddaraf. Cytunodd rheolwr y practis i wneud y newid hwn.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Er nad oedd y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad hyd yma, gwelsom fod proses wedi cael ei rhoi ar waith er mwyn cynnal y rhain yn y dyfodol agos.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolydd y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n ategu dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#). Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Datguddio Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis ['Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

### Gwasanaeth: Deintyddfa Waterfront

### Dyddiad yr arolygiad: 11 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw ofynion sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:



## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Deintyddfa Waterfront

### Dyddiad yr arolygiad: 11 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad.				
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y diffibriliwr allanol awtomatig yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.</p> <p>Rhaid i'r practis ddisodli cynhwysion y blwch cymorth cyntaf sydd wedi mynd heibio eu</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)</p> <p>Rheoliad 14 (2) ac 14 (3)</p>	<p>Erbyn hyn, rydym wedi rhoi system ar waith i wirio'r diffribrilwr allanol awtomatig yn y ganolfan feddygol unwaith bob wythnos fel y mae'r canllawiau dadebru'n ei nodi.</p> <p>Mae'r cynhwysion sydd wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben wedi cael</p>	Amber Rose	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dyddiadau dod i ben a chynnal gwiriadau rheolaidd ar ei gynhwysion.	(b)	eu disodli ac mae'r blwch cymorth cyntaf bellach wedi'i gynnwys yn y gwiriadau wythnosol ar y cyffuriau/offer a ddefnyddir mewn achos brys.		
Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)  Rheoliadau 14 (1) (b) ac 14 (2)	Mae arfarniadau staff bellach wedi cael eu cynnal.  Mae Martin wedi cynnwys ei hun fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid mewn practis arall, a bydd yn cael cyfarfodydd yn rheolaidd gyda nhw.	Amber Rose	Ar unwaith
Dylai'r practis sicrhau bod ganddo bolisi priodol i olrhain atgyfeiriadau cleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)  Rheoliad 14 (2)	Bellach mae gennym lyfr atgyfeirio lle'r ydym yn cofnodi'r holl atgyfeiriadau ac yn gwirio'r rhain unwaith y mis, ac yn mynd ar drywydd atgyfeiriadau.	Laura Colley	Ar unwaith

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Amber Rose**

**Swydd:** Rheolwr y practis

**Dyddiad:** 04/10/2017